

**Tŷ Cwm Rhondda  
Tyntyla Avenue  
Ystrad  
Rhondda  
Rhondda Cynon Taf  
CF41 7SU**

**Adroddiad Arolygu 2010-2011**

Gall y cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) gael eu darparu mewn ffurf neu iaith arall ar gais. Bydd oedi byr wrth i ni baratoi ieithoedd a fformatau gwahanol er mwyn diwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Mae copïau o bob adroddiad, ar ôl ei gyhoeddi, ar gael ar ein gwefan, neu cysylltwch â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu a Chyfleusterau  
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru  
Tŷ Bevan  
Parc Busnes Caerffili  
Heol y Fan  
CAERFFILI  
CF83 3ED**

Neu trwy'r canlynol

**Ffôn:** 029 20 928850  
**Ebost:** [hiw@wales.gsi.gov.uk](mailto:hiw@wales.gsi.gov.uk)  
**Ffacs:** 029 20 928877  
**Gwefan:** [www.hiw.org.uk](http://www.hiw.org.uk)



| Dyddiad Arolygu | Rheolwr Arolygu: |
|-----------------|------------------|
| 28 Mawrth 2011  | Mr John Powell   |

## Cyflwyniad

Mae'n rhaid i ddarparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru fod wedi eu cofrestru ag Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC). AGIC sy'n rheoleiddio gwasanaethau gofal iechyd yng Nghymru ar ran Gweinidogion Cymru sydd, yn rhinwedd Deddf Llywodraeth Cymru 2006, wedi'u dynodi fel yr awdurdod cofrestru.

I gofrestru, mae'n rhaid iddynt ddangos cydymffurfiaid â Deddf Safonau Gofal 2000 a'r rheoliadau cysylltiedig. Mae AGIC yn profi cydymffurfiaid darparwyr trwy asesu pob asiantaeth a sefydliad cofrestredig yn erbyn cyfres o '*Safonau Gofynnol Cenedlaethol*,' a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ac sy'n nodi'r safonau gofynnol ar gyfer gwahanol fathau o wasanaethau iechyd annibynnol. Gellir gweld mwy o wybodaeth ynglŷn â'r safonau a'r rheoliadau ar ein gwefan:

**[www.hiw.org.uk](http://www.hiw.org.uk)**

Mae'n rhaid i ddarllenwyr fod yn ymwybodol mai diben yr adroddiad hwn yw adlewyrchu canfyddiadau'r digwyddiad arolygu. Ni ddylai darllenwyr ddod i'r casgliad bod amgylchiadau'r gwasanaeth yr un fath bob amser.

## Cefndir a'r Prif Ganfyddiadau

Cynhaliwyd arolygiad dirybudd yn Nhŷ Cwm Rhondda ar 28 Mawrth 2011 gan reolwr arolygu, rheolwr arolygu cynorthwyol, dau adolygwr AGIC ac adolygwr y Ddeddf Iechyd Meddwl.

Cofrestrwyd yr ysbyty am y tro cyntaf ym mis Hydref 2007, ac mae wedi ei gofrestru ar hyn o bryd ar gyfer 20 (ugain) o gleifion mewn 2 (dwy) ward ar wahân. Mae Tŷ Cwm Rhondda yn amgylchedd diogelwch isel, ac mae'n darparu gwasanaeth adsefydlu i gleifion a allai gael eu cadw'n gaeth dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983.

Mae mwy o fanylion am y gwahanol gategorïau derbyn wedi eu rhestru yn adran amodau cofrestru yr adroddiad hwn.

Yn rhan o'r broses arolygu, cyflwynodd y darparwr cofrestredig ffurflen hunanasesu wedi ei llenwi a dogfennau ategol i ddangos sut yr oeddent yn bodloni'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd Preifat a Gwirfoddol. Roedd yr arolygiad yn canolbwyntio ar archwilio amrywiaeth o ddogfennau, gan gynnwys cofnodion cleifion, a thrafod gyda'r darpar reolwr cofrestredig ac amrywiaeth o aelodau staff sy'n gweithio yn yr ysbyty. Yn ogystal, cyfwelwyd nifer o gleifion, ac mae'r adborth a gafwyd gan gleifion a staff wedi ei ddefnyddio yn yr adroddiad hwn.

Ystyriwyd nifer o feysydd allweddol yn ystod y broses arolygu, gan gynnwys dogfennau cynllunio gofal, asesiadau risg, arlwy, yr amgylchedd gofal, a phrosesau llywodraethu a monitro ansawdd mewnol.

O ran y prif ganfyddiadau, roedd y darparwr cofrestredig wedi sefydlu'r canlynol:

- Datganiad o Ddiben.
- Cofnodion cleifion strwythuredig y gellid eu dilyn yn rhwydd.
- Dogfennau gofal. Yn yr enghreifftiau yr edrychwyd arnynt, gwelwyd tystiolaeth o asesiadau risg a rheoli, ac roedd cynlluniau gofal ar gael, ac asesiadau seiciatrig wedi eu cynnal. Fodd bynnag, o ran yr holl gofnodion cleifion yr edrychwyd arnynt, nodwyd llawer o fylchau a gwybodaeth a oedd wedi ei hepgor, gan gynnwys diffyg:
  - llofnodion staff a dyddiadau yn y dogfennau cynllunio gofal;
  - adolygu'r cynlluniau gofal - Ebrill 2010 oedd y dyddiad a oedd wedi ei nodi ar rai ohonynt;
  - gwybodaeth gyn-dderbyn;
  - tystiolaeth o gynlluniau triniaeth;
  - asesiadau neu adroddiadau amlddisgyblaethol;
  - nodiadau cyfarfodydd amlddisgyblaethol;
  - ffurflenni digwyddiadau.

Yn ogystal, roedd y cynlluniau gofal yn ymddangos yn gyffredinol iawn, a heb fod yn benodol iawn i'r cleifion unigol. Roedd asesiadau risg clinigol wedi eu cynnal bob chwe mis, ond bob tri mis yw'r arfer gofynnol ar gyfer cynnal y rhain. Hefyd, roedd yn aneglur pa un a yw'r holl weithwyr proffesiynol yn cyfrannu at lunio adroddiad amlddisgyblaethol unigol, a sut yr oedd copïau electronig a chopïau caled o'r nodiadau dyddiol yn cael eu rheoli a'u cydgysylltu ymysg y staff.

- Roedd tystiolaeth fod y cleifion wedi cael gwybod am eu hawliau dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 bob mis, ond roedd yn aneglur pa un a oeddent yn cael gwybodaeth ysgrifenedig ar yr un pryd.
- Er bod 12 mis wedi mynd heibio ers yr arolygiad diwethaf, yn anffodus, roedd y dystiolaeth yn parhau i fod yn brin iawn i ddangos bod diwrnod therapiwtig a strwythuredig o weithgareddau cynlluniedig wedi ei weithredu'n ddigonol a'i ddatblygu gyda'r cleifion. Roedd cleifion yn dweud bod y gweithgareddau'n gyfyngedig, a nododd yr arolygydd hefyd nad oedd yr ystafell weithgareddau'n cael ei defnyddio ar ddiwrnod yr arolygiad a bod y rhan fwyaf o'r cleifion yn eistedd yn gwylio'r teledu gyda'u gweithwyr cymorth. O'r gweithgareddau cyfyngedig a oedd ar gael, prin oedd y dystiolaeth hefyd i ddangos bod rhaglen addysgol wedi ei sefydlu ar gyfer y cleifion.
- Roedd gwasanaeth eirioli ar gael, ac roedd eiriolwr yn ymweld â'r ysbyty bob wythnos. Roedd manylion am y gwasanaeth eirioli wedi eu harddangos ar y wardiau yr ymwelwyd â hwy, ond roedd angen diweddarw'r wybodaeth a oedd ar Ward Clydwch er mwyn adlewyrchu'r gwasanaeth eirioli presennol.
- Roeddid yn cael barn y cleifion trwy gyfrwng y cyfarfodydd cymunedol wythnosol, ac roedd arolwg cleifion hefyd wedi ei gynnal. Fodd bynnag, ar adeg yr arolygiad, nid oedd y Therapydd Galwedigaethol Arweiniol wedi cwblhau'r dadansoddiad o'r canfyddiadau.
- Siaradodd y darpar reolwr cofrestredig am y gwahanol feysydd gwaith a oedd yn cael eu datblygu, gan gynnwys edrych ar ddangosyddion perfformiad, canlyniadau archwiliadau clinigol a nyrsio, a'r systemau cofnodi gwybodaeth gyffredinol a gwybodaeth glinigol yn yr ysbyty. Roedd rhaglen archwilio clinigol hefyd yn cael ei datblygu, ac roedd dull archwilio'n cael ei ddyfeisio i'w gymeradwyo gan y Bwrdd Llywodraethu.

- Roedd polisïau a gweithdrefnau wedi eu sefydlu, ond ar adeg yr arolygiad, nid oedd y ddalen a oedd yn dangos bod y staff wedi darllen y dogfennau a oedd yn berthnasol iddynt hwy a'u maes gwaith ar gael.
- O ran hyfforddiant, roedd sawl aelod o staff yn ansicr pa un a oeddent wedi cael hyfforddiant ar amddiffyn oedolion sy'n agored i niwed (PoVA) a'r Ddeddf Galluedd Meddyliol. Yn ogystal, yn ystod y cyfarfod gyda'r darpar reolwr cofrestredig, daeth yn amlwg fod angen hyfforddiant ar y staff hefyd ar amddiffyn plant, y weithdrefn gwyno, cynnal prosesau chwilio cleifion ac arferion gwrthwahanïaethol.
- Roedd yn amlwg fod perthynas dda iawn yn bodoli rhwng y cleifion a'r staff, ac roedd y cleifion o'r farn eu bod wedi cael eu trin ag urddas a pharch. Fodd bynnag, mynegwyd peth pryder gan y staff a'r cleifion ynglŷn ag ymddygiad heriol dau o'r cleifion yn yr ysbyty. Mae angen ystyried sut y gellir datblygu gofal ac ailsefydliad cleifion o'r fath yn y tymor hir heb iddo barhau i gael effaith anffafriol ar ddeinameg y wardiau, y staff a'r cleifion.
- Adroddir am ddigwyddiadau yn unol â'r polisi a'r weithdrefn sydd wedi eu pennu, ond roedd trafodaeth gyda'r staff yn awgrymu mai prin oedd yr adborth a'r gwersi i'w dysgu yr oeddent wedi eu cael yn dilyn digwyddiad, ac roeddent hefyd yn ansicr pa un a oedd dadansoddiad o dueddiadau wedi ei gynnal i edrych ar unrhyw themâu cyffredin.
- Roedd y canlyniad yn gadarnhaol o ran rheoli meddyginiaeth. Roedd cofnodion meddyginiaeth ar gael ar gyfer pob claf, ac roedd y cofnodion wedi eu llofnodi gan y rhagnodwr. Roedd polisïau a gweithdrefnau wedi eu sefydlu, ac roedd meddyginiaethau yn cael eu trin a'u rhoi yn unol â'r gofynion perthnasol.

## **Amgylchedd Gofal**

- Yn gyffredinol, roedd yr amgylchedd yn lân ac yn olau, roedd digon o awyr iach yno, ac roedd yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda. Roedd y dodrefn o safon dda yn gyffredinol, ond gwelwyd enghreifftiau fod peth o'r clustogwaith ar y cadeiriau esmwyth ar ward Clydwch wedi cracio, ac roedd drws i gegin y cleifion heb ei ailosod.

- Nodwyd yn swyddfeydd y ward fod manylion am bob un o'r cleifion ar y ward honno wedi eu cofnodi ar y byrddau gwyn. Oherwydd ei bod yn rhwydd gweld yn glir o fannau cymunedol y cleifion i mewn i bob un o'r swyddfeydd, mae angen cymryd camau i ddiogelu cyfrinachedd gwybodaeth am gleifion.
- Roedd mynediad ar gael i'r awyr agored, ond dywedodd cleifion ar Ward Clydwch y gall mynediad i'w gardd gael ei gyfyngu weithiau oherwydd nifer yr aelodau staff sydd ar gael. Yn ogystal, roedd yn amlwg o hyd nad oedd yr ardd yn cael ei defnyddio ddigon fod yr ardd yn parhau i gael ei thanddefnyddio fel adnodd ar gyfer gweithgareddau; mae'r ffens derfyn a'r giât ddiogelwch hefyd yn parhau i beri risg, ac mae angen cymryd camau adfer yn ddi-oed.
- Roedd y cleifion yn cael mynd i'w hystafelloedd ar unrhyw adeg, a chaniateid iddynt fynd â'u heiddo personol iddynt i'w gwneud yn gartrefol. Yn ystod yr arolygiad, nodwyd nad oedd y math o gwpwrdd llyfrau a oedd wedi ei osod ar wal ystafelloedd y cleifion o safon a allai atal anaf neu hunan-niwed, a bydd angen rhoi sylw priodol i hyn.
- Roedd dewis ac amrywiaeth yn amlwg o ran y gwasanaeth arlwygo a ddarperir, ac roedd y cleifion yn dweud bod ansawdd y bwyd yn dda iawn a bod byrbrydau bob amser ar gael.

Hoffai'r tîm arolygu ddiolch i'r staff a'r cleifion am eu hamser a'u cydweithrediad yn ystod yr ymweliad arolygu dirybudd.

## **Llwyddiannau a Chydymffurfriad**

Nodwyd pum gofyniad rheoliadol yn yr adroddiad arolygu blaenorol. Mae un gofyniad yn parhau i fod heb dderbyn sylw - 0910/4, sef gwneud cynnydd tuag at weithredu diwrnod strwythuredig ar gyfer y cleifion, gyda gweithgareddau ystyrlon sy'n cyfrannu at yr amcanion triniaeth a nodir gan y Tîm Amlddisgyblaethol.

## Mathau o Gofrestriad

Caniateir y cofrestriad hwn yn unol â'r math o wasanaeth a ddarperir. Mae'r adroddiad hwn ar gyfer y math canlynol o wasanaeth:

| Disgrifiad                                                                                                                                                                  |
|-----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| <b>Ysbyty Annibynnol</b>                                                                                                                                                    |
| <b>Ysbyty annibynnol â gwelyau dros nos sy'n darparu triniaeth feddygol ar gyfer iechydd meddwl (gan gynnwys cleifion a gedwir yn gaeth dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983).</b> |

## Amodau'r Cofrestriad

Mae'r cofrestriad hwn yn ddarostyngedig i'r amodau canlynol. Archwilir pob amod ar gyfer cydymffurfriad. Disgrifir y dyfarniad fel bod yn Cydymffurfio, Ddim yn Cydymffurfio neu Sicrwydd Annigonol.

| Rhif yr Amod | Amod y Cofrestriad                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                 | Dyfarniad    |
|--------------|----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|--------------|
| 1.           | Ni chaiff nifer yr unigolion sy'n derbyn llety yn y sefydliad ar unrhyw un adeg fod yn fwy nag 20 (ugain).                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                         | Cydymffurfio |
| 2.           | <p>Mae'r unigolyn cofrestredig wedi ei gofrestru i ddarparu'r canlynol yn unig:</p> <p>1) Yn unol ag amod 3) isod, triniaeth feddygol a seiciatrig mewn amgylchedd diogelwch isel (fel y'i diffinnir yn y '<i>Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Cyffredinol i Oedolion mewn Unedau Gofal Dwys Seiciatrig ac Amgylcheddau Diogelwch Isel (Yr Adran Iechyd) 2002'</i>), gyda'r bwriad o ddarparu triniaeth a gwasanaethau adsefydlu i gleifion gwrywaidd a benywaidd sy'n:</p> <p>2)</p> <p>a) oedolion (18 i 65 mlwydd oed) sydd wedi cael diagnosis o salwch meddwl a/ neu anhwylder personoliaeth, ac</p> <p>b) a allai gael eu cadw'n gaeth dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983.</p> | Cydymffurfio |



| Rhif yr Amod | Amod y Cofrestriad                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                | Dyfarniad    |
|--------------|---------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|--------------|
| 3.           | Bydd yr unigolyn cofrestredig yn asesu unigolion er mwyn penderfynu a ydynt yn addas i'w derbyn yn unol â'r hyn a nodir yn y Datganiad o Ddiben dyddiedig 9 Hydref 2007 y cytunwyd arno.                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                          | Cydymffurfio |
| 4.           | <p>Ni chaiff yr unigolyn cofrestredig dderbyn y categorïau canlynol o gleifion:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>c) Pobl nad oes angen iddynt dderbyn gwasanaethau adsefydlu mewn amgylchedd diogelwch isel.</li> <li>ch) Pobl sydd â phrif ddiagnosis o anhwylder bwyta.</li> <li>d) Pobl sydd â phrif ddiagnosis o gamddefnyddio sylweddau.</li> <li>dd) Pobl ag anabledd dysgu.</li> <li>e) Pobl nad ydynt wedi eu hasesu'n llawn a'u derbyn yn unol â pholisi derbyn Tŷ Cwm Rhondda.</li> <li>f) Pobl sydd wedi cyflawni ymosodiad difrifol yn ystod y 12 mis blaenorol.</li> </ul> | Cydymffurfio |
| 5.           | Darperir y lefelau staffio gofynnol ar gyfer y sefydliad fel y'u nodir yn y Datganiad o Ddiben dyddiedig 9 Hydref 2007 y cytunwyd arno.                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                           | Cydymffurfio |
| 6.           | Yn unol ag amodau 7 ac 8 isod, ceir cynnig llety i un dyn (Mr A), sydd wedi cael diagnosis o anabledd dysgu, a enwyd mewn llythyr cyfrinachol ar wahân, dyddiedig 28 Mai 2008.                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                    | Cydymffurfio |
| 7.           | Rhaid i'r Seiciatrydd Ymgynghorol a'r Nyrs Benodedig sy'n gyfrifol am ofal Mr A fod yn meddu ar gymhwyster perthnasol mewn gofalu am unigolion ag anabledd dysgu. Mae'n rhaid i'r unigolion hyn allu dangos eu bod wedi diweddarau eu sgiliau clinigol yn y maes arbenigol hwn yn ddiweddar.                                                                                                                                                                                                                                                                                                      | Cydymffurfio |
| 8.           | Rhaid cynnal adolygiadau'r Dull Rhaglen Ofal ar gyfer Mr A o leiaf bob chwe mis, a rhaid asesu a chytuno ar ba un a yw anghenion asesedig Mr A yn cael eu bodloni yn y ffordd orau yn Nhŷ Cwm Rhondda. Os na ellir parhau i fodloni'r amod hwn, ni chaiff yr unigolion cofrestredig gynnig llety i Mr A am gyfnod o fwy na mis o ddyddiad penderfyniad o'r fath.                                                                                                                                                                                                                                  | Cydymffurfio |

## Asesiadau

Mae Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru yn cynnal archwiliadau o safleoedd er mwyn asesu safonau. Pe byddem yn canfod meysydd lle nad yw'r darparwr yn bodloni'r safonau gofynnol neu lle nad yw'n cydymffurfio â'r rheoliadau, neu nad oes gennym ddigon o dystiolaeth i ddangos y cyflawnir y lefel ofynnol o berfformiad, rhoddir gwybod i'r unigolyn cofrestredig am hyn drwy gyfrwng yr adroddiad arolygu hwn. Gall fod achlysuron hefyd pan ganfyddir methiannau mwy difrifol neu sydd angen sylw di-oed, ac efallai bod yr unigolyn cofrestredig hefyd wedi'i hysbysu ynglŷn â'r canfyddiadau a'r camau sydd i'w cymryd trwy lythyr, ond bydd y materion hynny hefyd yn cael eu cynnwys yn yr adroddiad arolygu hwn. Mae Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru yn penderfynu ar yr angen i arolygu'r sefydliad a pha mor aml y dylid gwneud hynny ar sail y wybodaeth a dderbyniwyd gan y darparwr ac amdano/amdani ers cynnal yr arolygiad diwethaf. Cyn cynnal arolygiad, bydd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru yn ystyried y wybodaeth sydd ganddi am unigolyn cofrestredig. Gallai hyn gynnwys: hunanasesiad yn erbyn y safonau, canfyddiadau'r adroddiad arolygu blaenorol ac unrhyw gynllun gweithredu a gyflwynwyd, adroddiadau ynglŷn ag ymweliadau'r darparwr, y Datganiad o Ddiben ar gyfer y sefydliad neu'r asiantaeth, ac unrhyw gwynion neu wybodaeth sy'n peri pryder am yr unigolyn cofrestredig a'r gwasanaethau.

Wrth asesu pob safon, yr ydym yn defnyddio pedwar datganiad i nodi'r canlyniad:

|                            |                                                                                                                                                                                                                                                                                                             |
|----------------------------|-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| Safon wedi ei bodloni      | Dim diffygion: yn cyflawni'r lefelau gofynnol o berfformiad.                                                                                                                                                                                                                                                |
| Safon bron wedi ei bodloni | Mân ddiffygion: dim diffygion mawr a'r lefelau gofynnol o berfformiad yn ymddangos yn gyraeddadwy heb orfod cymryd camau ychwanegol o bwys.                                                                                                                                                                 |
| Safon heb ei bodloni       | Diffygion difrifol: angen cymryd camau sylweddol i gyflawni'r lefelau gofynnol o berfformiad.                                                                                                                                                                                                               |
| Safon heb ei harolygu      | Mae hyn naill ai oherwydd nad oedd y safon yn berthnasol, neu oherwydd na nodwyd unrhyw risg yn dilyn asesiad o'r wybodaeth a dderbyniwyd gan y sefydliad neu'r asiantaeth neu am y sefydliad neu'r asiantaeth, ac felly penderfynwyd nad oedd angen archwilio'r safon ymhellach yn ystod yr arolygiad hwn. |

## Asesiadau a Gofynion

Mae'r asesiadau wedi eu rhoi mewn grwpiau dan y penawdau canlynol, a cheir cyfeirnod ar gyfer pob safon:

- Safonau Craidd
- Safonau sy'n Benodol i'r Gwasanaeth

Talfyriadau ar gyfer y Safonau:

C = Safonau craidd

A = Safonau aciwt

MH = Safonau iechyd meddwl

H = Safonau hosbis

MC = Safonau mamolaeth

TP = Safonau terfynu beichiogrwydd

P = Safonau technegau a thechnoleg rhagnodedig

PD = Safonau meddygon preifat

Os nad yw'r unigolyn cofrestredig wedi llwyr fodloni unrhyw un o'r safonau isod, yr ydym wedi nodi ein canfyddiadau a'r camau y mae'n rhaid i'r unigolyn cofrestredig eu cymryd er mwyn cydymffurfio â'r rheoliad penodol ar ddiwedd yr adroddiad. Gall peidio â chydymffurfio â rheoliad fod yn drosedd. Mae'n rhaid i ddarllenwyr fod yn ymwybodol mai diben yr adroddiad yw adlewyrchu canfyddiadau'r arolygydd yn ystod y digwyddiad arolygu penodol. Ni ddylai darllenwyr ddod i'r casgliad bod amgylchiadau'r gwasanaeth yr un fath bob amser. Weithiau bydd gwasanaethau'n gwella ac weithiau byddant yn dirywio.

## Safonau Craidd

| Rhif | Testun y Safon                                                                                                                                                                            | Asesiad                   |
|------|-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|---------------------------|
| C1   | Mae cleifion yn derbyn gwybodaeth eglur a chywir am eu triniaeth.                                                                                                                         | Safon wedi'i bodloni      |
| C2   | Mae'r driniaeth a'r gofal a ddarperir yn rhoi'r claf yn gyntaf.                                                                                                                           | Safon bron wedi'i bodloni |
| C3   | Mae'r triniaethau a roddir i gleifion yn unol â chanllawiau clinigol perthnasol.                                                                                                          | Safon heb ei hasesu       |
| C4   | Sicrheir cleifion bod ansawdd y driniaeth a'r gofal yn cael ei fonitro.                                                                                                                   | Safon bron wedi'i bodloni |
| C5   | Ymdrinnir â gofal terfynol a marwolaeth cleifion yn briodol ac yn sensitif.                                                                                                               | Safon heb ei hasesu       |
| C6   | Mae'r sefydliad yn cael barn cleifion ac yn defnyddio'r wybodaeth wrth ddarparu triniaeth a gofal, ac ar gyfer darpar gleifion.                                                           | Safon bron wedi'i bodloni |
| C7   | Mae polisïau a gweithdrefnau priodol wedi eu sefydlu er mwyn cynorthwyo i sicrhau ansawdd y driniaeth a'r gwasanaethau.                                                                   | Safon bron wedi'i bodloni |
| C8   | Sicrheir cleifion bod y sefydliad neu'r asiantaeth yn cael ei redeg/rhedeg gan sefydliad/unigolyn addas a bod llinell eglur o atebolrwydd ar gyfer darparu'r gwasanaethau.                | Safon wedi'i bodloni      |
| C9   | Mae cleifion yn derbyn gofal gan staff sydd wedi eu recriwtio a'u hyfforddi'n briodol ac sy'n meddu ar gymwysterau priodol.                                                               | Safon heb ei hasesu       |
| C10  | Mae cleifion yn derbyn gofal gan nyrsys sydd wedi eu cofrestru'n briodol sydd â'r sgiliau, y wybodaeth a'r arbenigedd perthnasol i ddarparu gofal i gleifion yn ddiogel ac yn effeithiol. | Safon heb ei hasesu       |

| Rhif | Testun y Safon                                                                                                                                                                                                  | Asesiad                   |
|------|-----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|---------------------------|
| C11  | Mae cleifion yn derbyn triniaeth gan ymarferwyr sydd wedi eu recriwtio a'u hyfforddi'n briodol ac sy'n meddu ar gymwysterau priodol.                                                                            | Amherthnasol              |
| C12  | Mae cleifion yn derbyn triniaeth gan ymarferwyr gofal iechyd proffesiynol sy'n cydymffurfio â'u codau ymarfer proffesiynol.                                                                                     | Safon heb ei hasesu       |
| C13  | Nid yw'r cleifion na phersonél wedi eu heintio â firsau a gludir yn y gwaed.                                                                                                                                    | Safon heb ei hasesu       |
| C14  | Caiff plant sy'n derbyn triniaeth eu hamddiffyn yn effeithiol rhag cael eu cam-drin.                                                                                                                            | Amherthnasol              |
| C15  | Caiff oedolion sy'n derbyn gofal eu hamddiffyn yn effeithiol rhag cael eu cam-drin.                                                                                                                             | Safon bron wedi'i bodloni |
| C16  | Mae proses gwyno effeithiol ar gael i gleifion.                                                                                                                                                                 | Safon bron wedi'i bodloni |
| C17  | Mae cleifion yn derbyn gwybodaeth briodol ynglŷn â sut i wneud cwyn.                                                                                                                                            | Safon wedi'i bodloni      |
| C18  | Mae'n ddyletswydd ar staff a phersonél i fynegi pryderon ynglŷn ag arfer amheus neu wael.                                                                                                                       | Safon heb ei hasesu       |
| C19  | Mae cleifion yn derbyn triniaeth mewn safle sy'n ddiogel ac yn briodol ar gyfer y driniaeth honno. Darperir amgylchedd addas i blant a dderbynnir neu sy'n mynychu'r safle i gael triniaeth.                    | Safon wedi'i bodloni      |
| C20  | Mae cleifion yn derbyn triniaeth gan ddefnyddio offer a chyflenwadau sy'n ddiogel ac mewn cyflwr da.                                                                                                            | Safon heb ei hasesu       |
| C21  | Mae cleifion yn derbyn gwasanaethau arlwyio priodol.                                                                                                                                                            | Safon wedi'i bodloni      |
| C22  | Sicrheir cleifion, staff ac unrhyw un sy'n dod i ymweld â'r safle cofrestredig y caiff yr holl risgiau sy'n gysylltiedig â'r sefydliad, y triniaethau a'r gwasanaethau eu nodi, eu hasesu a'u rheoli'n briodol. | Safon heb ei hasesu       |
| C23  | Mae'r camau iechyd a diogelwch priodol wedi eu sefydlu.                                                                                                                                                         | Safon heb ei hasesu       |
| C24  | Mae camau wedi eu sefydlu i sicrhau bod meddyginiaethau'n cael eu rheoli a'u trin yn ddiogel.                                                                                                                   | Safon wedi'i bodloni      |
| C25  | Caiff meddyginiaethau, rhwymau a nwyon meddygol eu trin mewn modd saff a diogel.                                                                                                                                | Safon wedi'i bodloni      |
| C26  | Caiff cyffuriau rheoledig eu cadw, eu rhoi a'u dinistrio yn briodol.                                                                                                                                            | Amherthnasol              |
| C27  | Mae'r risg i gleifion, staff ac ymwelwyr o ddal haint a gafwyd yn yr ysbyty yn cael ei lleihau cymaint â phosibl.                                                                                               | Safon heb ei hasesu       |
| C28  | Ni roddir triniaeth i gleifion drwy ddefnyddio dyfeisiau meddygol halogedig.                                                                                                                                    | Safon heb ei hasesu       |
| C29  | Caiff cleifion eu dadebru'n briodol ac yn effeithiol.                                                                                                                                                           | Safon heb ei hasesu       |
| C30  | Mae contractau'n sicrhau bod cleifion yn derbyn nwyddau a gwasanaethau o ansawdd priodol.                                                                                                                       | Safon heb ei hasesu       |

| Rhif | Testun y Safon                                                                                                                                                                                   | Asesiad                   |
|------|--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|---------------------------|
| C31  | Caiff cofnodion eu creu, eu cynnal a'u storio i safonau sy'n bodloni cydymffurfiad cyfreithiol a rheoliadol ac argymhellion arfer proffesiynol.                                                  | Safon heb ei hasesu       |
| C32  | Sicrheir cleifion y cwblheir cofnodion iechyd yn briodol.                                                                                                                                        | Safon bron wedi'i bodloni |
| C33  | Rhoddir sicrwydd i gleifion y rheolir yr holl wybodaeth o fewn y corff rheoledig er mwyn sicrhau cyfrinachedd cleifion.                                                                          | Safon bron wedi'i bodloni |
| C34  | Caiff unrhyw waith ymchwil a gynhelir yn y sefydliad / asiantaeth ei gynnal gyda chaniatâd priodol y cleifion perthnasol, yn unol â chanllawiau cyhoeddedig ynglŷn â chynnal prosiectau ymchwil. | Safon heb ei hasesu       |

**Safonau sy'n benodol i'r gwasanaeth – mae'r rhain yn benodol i'r math o sefydliad a archwiliwyd:**

| Rhif | Safonau Ysbyty Iechyd Meddwl                                                    | Asesiad                   |
|------|---------------------------------------------------------------------------------|---------------------------|
| M1   | Gweithio yn unol â'r Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer Iechyd Meddwl. | Safon heb ei bodloni      |
| M2   | Cyfathrebu rhwng y staff.                                                       | Safon bron wedi'i bodloni |
| M3   | Cyfrinachedd cleifion.                                                          | Safon wedi'i bodloni      |
| M4   | Archwiliad clinigol.                                                            | Safon bron wedi'i bodloni |
| M5   | Niferoedd staff a chymysgedd sgiliau.                                           | Safon heb ei hasesu       |
| M6   | Hyfforddiant staff.                                                             | Safon bron wedi'i bodloni |
| M7   | Asesu a rheoli risgiau.                                                         | Safon bron wedi'i bodloni |
| M8   | Atal hunanladdiad.                                                              | Safon bron wedi'i bodloni |
| M9   | Gweithdrefnau dadebru.                                                          | Safon heb ei hasesu       |
| M10  | Cyfrifoldeb dros wasanaethau fferyllol.                                         | Safon wedi'i bodloni      |
| M11  | Y Dull Rhaglen Ofal / rheoli gofal.                                             | Safon heb ei hasesu       |
| M12  | Derbyn ac asesu.                                                                | Safon bron wedi'i bodloni |
| M13  | Y Dull Rhaglen Ofal: cynllunio ac adolygu gofal.                                | Safon bron wedi'i bodloni |
| M14  | Gwybodaeth i gleifion am eu triniaeth.                                          | Safon bron wedi'i bodloni |

| Rhif | Safonau Ysbyty Iechyd Meddwl                                                                                       | Asesiad                   |
|------|--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|---------------------------|
| M15  | Cleifion ag anableddau datblygiadol.                                                                               | Safon wedi'i bodloni      |
| M16  | Therapi Electrogynhyrfol (ECT).                                                                                    | Safon heb ei hasesu       |
| M17  | Rhoi meddyginiaeth.                                                                                                | Safon wedi'i bodloni      |
| M18  | Hunanfeddyginiaethu.                                                                                               | Amherthnasol              |
| M19  | Triniaeth ar gyfer dibyniaeth.                                                                                     | Safon wedi'i bodloni      |
| M20  | Trosglwyddo cleifion.                                                                                              | Safon heb ei hasesu       |
| M21  | Rhyddhau cleifion.                                                                                                 | Safon heb ei hasesu       |
| M22  | Cofnodion cleifion.                                                                                                | Safon bron wedi'i bodloni |
| M23  | Grymuso.                                                                                                           | Safon bron wedi'i bodloni |
| M24  | Trefniadau ymweld.                                                                                                 | Safon wedi'i bodloni      |
| M25  | Gweithio gyda gofalwyr ac aelodau'r teulu.                                                                         | Safon heb ei hasesu       |
| M26  | Arfer gwrthwahaniaethol.                                                                                           | Safon wedi'i bodloni      |
| M27  | Ansawdd bywyd cleifion.                                                                                            | Safon bron wedi'i bodloni |
| M28  | Arian cleifion.                                                                                                    | Safon heb ei hasesu       |
| M29  | Cyfyngiadau a diogelwch ar gyfer cleifion.                                                                         | Safon wedi'i bodloni      |
| M30  | Lefelau arsylwi.                                                                                                   | Safon wedi'i bodloni      |
| M31  | Rheoli ymddygiad cythryblus.                                                                                       | Safon wedi'i bodloni      |
| M32  | Rheoli digwyddiadau difrifol/anffafriol.                                                                           | Safon bron wedi'i bodloni |
| M33  | Marwolaeth annisgwyl claf.                                                                                         | Safon heb ei hasesu       |
| M34  | Cleifion sy'n dianc.                                                                                               | Safon bron wedi'i bodloni |
| M35  | Atal cleifion yn gorfforol ac ymyrraeth gorfforol.                                                                 | Safon wedi'i bodloni      |
| M41  | Sefydliadau lle darperir triniaeth i bobl sy'n agored i gael eu cadw'n gaeth dan orchymyn – gwybodaeth i'r staff . | Safon wedi'i bodloni      |
| M42  | Hawliau cleifion dan y Ddeddf Iechyd Meddwl.                                                                       | Safon bron wedi'i bodloni |
| M43  | Gwahanu oddi wrth gleifion eraill.                                                                                 | Amherthnasol              |

| Rhif | Safonau Ysbyty Iechyd Meddwl                  | Asesiad              |
|------|-----------------------------------------------|----------------------|
| M44  | Absenoldeb dan Adran 17.                      | Safon heb ei hasesu  |
| M45  | Absenoldeb heb ganiatâd dan Adran 18.         | Safon heb ei hasesu  |
| M46  | Rhyddhau cleifion a gedwir yn gaeth.          | Safon heb ei hasesu  |
| M47  | Hyfforddiant staff ar y Ddeddf Iechyd Meddwl. | Safon wedi'i bodloni |

## Atodlenni Gwybodaeth

Mae'r atodlenni gwybodaeth yn nodi manylion y wybodaeth y mae'n rhaid i'r unigolyn cofrestredig ei darparu, ei chadw neu ei chofnodi mewn cofnodion penodol.

| Atodlen     | Manylion                                                                                          | Asesiad      |
|-------------|---------------------------------------------------------------------------------------------------|--------------|
| 1           | Gwybodaeth i'w chynnwys yn y Datganiad o Ddiben.                                                  | Cydymffurfio |
| 2           | Gwybodaeth ofynnol yn ymwneud ag unigolion sy'n dymuno rhedeg, rheoli neu weithio mewn sefydliad. | Cydymffurfio |
| 3 (Rhan I)  | Y cyfnod gofynnol ar gyfer cadw cofnodion meddygol.                                               | Cydymffurfio |
| 3 (Rhan II) | Cofnodion y mae'n rhaid eu cadw i'w harchwilio.                                                   | Cydymffurfio |
| 4 (Rhan I)  | Manylion y mae'n rhaid eu cofnodi ynglŷn â chleifion sy'n derbyn gwasanaethau obstetreg.          | Amherthnasol |
| 4 (Rhan II) | Manylion y mae'n rhaid eu cofnodi am blentyn a anwyd mewn ysbyty annibynnol.                      | Amherthnasol |

## Gofynion

Mae'r gofynion isod yn mynd i'r afael ag unrhyw ddiffyg cydymffurfio â Rheoliadau Gofal Iechyd Preifat a Gwirfoddol (Cymru) 2002 a ganfuwyd o ganlyniad i asesu'r safonau a nodir yn y golofn ar y chwith, a gwybodaeth arall a dderbyniwyd gan y darparwr ac amdano/amdani. Cyfrifoldeb yr '*unigolyn cofrestredig*' yw'r gofynion, a chaiff yr unigolyn hwn fod naill ai'r darparwr cofrestredig neu reolwr cofrestredig y sefydliad neu'r asiantaeth, yn ôl y ddeddfwriaeth berthnasol. Bydd Arolygiaeth Gofal



lechyd Cymru yn gofyn i'r unigolyn cofrestredig ddarparu 'cynllun gweithredu' yn cadarnhau sut y mae'n bwriadu cyflawni'r camau gofynnol, a bydd yr Arolygiaeth, os oes angen, yn cymryd camau gorfodi er mwyn sicrhau cydymffurfiaid â'r rheoliad a nodwyd.

| Safon                                             | Rheoliad             | Gofyniad                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                       | Amserlen                                              |
|---------------------------------------------------|----------------------|----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-------------------------------------------------------|
| C2<br>M7<br>M12<br>M13<br>M2<br>M14<br>C32<br>M22 | 14 (1)(a)<br>20 (1)a | <p><b>Canfyddiad</b></p> <p>Nid oedd y dogfennau Cynllunio Gofal yn adlewyrchu'r canlynol yn eglur:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>▪ llofnodion y staff a dyddiadau yn y dogfennau cynllunio gofal;</li> <li>▪ adolygu'r cynlluniau gofal - Ebrill 2010 oedd y dyddiad a oedd wedi ei nodi ar rai ohonynt;</li> <li>▪ gwybodaeth gyn-dderbyn;</li> <li>▪ tystiolaeth o gynlluniau triniaeth;</li> <li>▪ asesiadau neu adroddiadau amlddisgyblaethol;</li> <li>▪ nodiadau cyfarfodydd amlddisgyblaethol;</li> <li>▪ ffurflenni digwyddiadau.</li> </ul> <p>Yn ogystal, roedd y cynlluniau gofal yn ymddangos yn gyffredinol iawn a heb fod yn benodol iawn i'r cleifion unigol, a dylid cynnal asesiadau risg clinigol bob tri mis ac nid bob chwe mis.</p> <p>Hefyd, roedd yn aneglur pa un a yw'r holl weithwyr proffesiynol yn cyfrannu at lunio adroddiad amlddisgyblaethol unigol, a sut yr oedd copïau electronig a chopïau caled o'r nodiadau dyddiol yn cael eu rheoli a'u cydgysylltu ymysg y staff.</p> <p><b>Camau Gweithredu</b></p> <p>Mae'n ofynnol i'r unigolyn cofrestredig sicrhau bod cleifion yn cael asesiadau a diagnosis prydlon, priodol a chywir o'u hanghenion iechyd.</p> | O fewn 28 diwrnod i ddyddiad derbyn yr adroddiad hwn. |

| Safon | Rheoliad      | Gofyniad                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                         | Amserlen                                           |
|-------|---------------|--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|----------------------------------------------------|
| M27   | 14 (1)a<br>16 | <p><b>Canfyddiadau</b></p> <p>Prin oedd y dystiolaeth i ddangos bod diwrnod therapiwtig a strwythuredig o weithgareddau cynlluniedig wedi ei weithredu'n ddigonol ar gyfer y cleifion, ac nid oedd unrhyw raglen addysgol wedi ei sefydlu ychwaith. Roedd rhai cleifion hefyd yn feirniadol o'r diffyg gweithgareddau a oedd ar gael.</p> <p><b>Camau Gweithredu</b></p> <p>Mae'n ofynnol i'r unigolyn cofrestredig gynnal adolygiad o'r gweithgareddau a ddarperir ar gyfer y cleifion, er mwyn sicrhau yr ystyrir y ddarpariaeth briodol i'r cleifion allu gwneud penderfyniadau ynglŷn â materion sy'n effeithio ar eu gofal. Mae'n ofynnol anfon copi o'r adolygiad hwn i AGIC ynghyd â thystiolaeth o sut y bydd hyn yn cael ei ddatblygu a'i weithredu gyda chleifion o ddydd i ddydd.</p> | O fewn tri mis i ddyddiad derbyn yr adroddiad hwn. |
| M23   | 15 (1)        | <p><b>Canfyddiadau</b></p> <p>Nid oedd y wybodaeth am wasanaeth eirioli annibynnol yn gyfredol ar Ward Clydwch.</p> <p><b>Camau Gweithredu</b></p> <p>Mae'n ofynnol i'r unigolyn cofrestredig sicrhau bod gwybodaeth am sut i gael gafael ar wasanaeth eirioli annibynnol yn cael ei harddangos yn y wardiau unigol. Dylai'r wybodaeth hon fod yn eglur ac mewn iaith ac ar ffurf sy'n addas i'r cleifion.</p>                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                   |                                                    |
| C6    | 16            | <p><b>Canfyddiadau</b></p> <p>Yn ystod yr arolygiad, nid oedd unrhyw dystiolaeth ar gael i ddangos canfyddiadau'r arolwg cleifion na chanfyddiadau cyfarfodydd wythnosol cymunedol.</p>                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                          | O fewn dau fis i ddyddiad derbyn yr adroddiad hwn. |

| Safon            | Rheoliad | Gofyniad                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                          | Amserlen                                           |
|------------------|----------|---------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|----------------------------------------------------|
|                  |          | <b>Camau Gweithredu</b><br><br>Mae'n ofynnol i'r unigolyn cofrestredig gynnal system ar gyfer adolygu'n rheolaidd ansawdd y driniaeth a'r gwasanaethau eraill a ddarperir. Dylid ymgynghori â'r cleifion a'u cynrychiolwyr, a dylid hefyd sicrhau bod copïau o'r adroddiadau ar gael i'r cleifion.                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                |                                                    |
| C4<br>M4         | 16       | <b>Canfyddiadau</b><br><br>Yn ystod yr arolygiad, prin oedd y dystiolaeth i ddangos y cytunwyd ar raglen gynlluniedig o archwiliadau clinigol a'i bod wedi ei datblygu.<br><br><b>Camau Gweithredu</b><br><br>Mae'n ofynnol i'r unigolyn cofrestredig gynnal system ar gyfer adolygu'n rheolaidd ansawdd y driniaeth a'r gwasanaethau eraill a ddarperir.                                                                                                                                                                                                                                                                                         | O fewn tri mis i ddyddiad derbyn yr adroddiad hwn. |
| M6<br>C15<br>C16 | 17 (2)a  | <b>Canfyddiadau</b><br><br>Roedd angen i'r staff ddilyn hyfforddiant ar y canlynol: <ul style="list-style-type: none"> <li>- amddiffyn oedolion sy'n agored i niwed (PoVA);</li> <li>- y Ddeddf Galluedd Meddyliol;</li> <li>- amddiffyn plant;</li> <li>- y broses gwyno;</li> <li>- cynnal prosesau chwilio cleifion;</li> <li>- arferion gwrthwahananiaethol.</li> </ul> <b>Camau Gweithredu</b><br><br>Mae'n ofynnol i'r unigolyn cofrestredig sicrhau bod pob aelod o'r staff yn cael hyfforddiant ar PoVA; y Ddeddf Galluedd Meddyliol; amddiffyn plant; y broses gwyno; cynnal prosesau chwilio cleifion, ac arferion gwrthwahananiaethol. | O fewn tri mis i ddyddiad derbyn yr adroddiad hwn. |

| Safon | Rheoliad          | Gofyniad                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                        | Amserlen                                           |
|-------|-------------------|---------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|----------------------------------------------------|
| M34   | 24(1)<br>24 (2)ch | <p><b>Canfyddiadau</b></p> <p>Nid oedd y ffens ddiogelwch a'r giât ddiogelwch yn addas i'w diben.</p> <p><b>Camau Gweithredu</b></p> <p>Mae'n ofynnol i'r unigolyn cofrestredig sicrhau nad oes peryglon i ddiogelwch y cleifion yn unrhyw ran o'r sefydliad y gall y cleifion fynd iddi, cyn belled â bod hynny'n rhesymol ymarferol.</p>                                      | O fewn tri mis i ddyddiad derbyn yr adroddiad hwn. |
| M8    | 24 (2)b           | <p><b>Canfyddiadau</b></p> <p>Nid oedd y cypyrddau llyfrau a oedd yn ystafelloedd gwely'r cleifion o safon a allai atal anaf neu hunan-niwed.</p> <p><b>Camau Gweithredu</b></p> <p>Mae'n ofynnol i'r unigolyn cofrestredig sicrhau bod yr ystafelloedd yn addas i'r dibenion y byddant yn cael eu defnyddio ar eu cyfer, a bod adnoddau a dodrefn priodol ar gael ynddynt.</p> | O fewn tri mis i ddyddiad derbyn yr adroddiad hwn. |
|       | 24(2)a            | <p><b>Canfyddiadau</b></p> <p>Roedd peth o'r clustogwaith ar y cadeiriau esmwyth wedi cracio.</p> <p>Roedd y drws i gegin y cleifion heb ei ailosod.</p> <p><b>Camau Gweithredu</b></p> <p>Mae'n ofynnol i'r unigolyn cofrestredig sicrhau bod adeiladwaith y safle yn gadarn a'i fod yn cael ei gadw mewn cyflwr da y tu allan a'r tu mewn.</p>                                | O fewn tri mis i ddyddiad derbyn yr adroddiad hwn. |

## Argymhellion

Gall argymhellion fod yn berthnasol i agweddau ar y safonau neu i ganllawiau cenedlaethol. Fe'u gwneir er mwyn i'r unigolion cofrestredig eu hystyried ond ni chânt eu gorfodi yn gyffredinol.

| Safon | Argymhelliad                                                                                                                                                                                                                  |
|-------|-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| M4    | Dylai archwiliadau clinigol gael eu datblygu'n rhaglen archwilio ffurfiol.                                                                                                                                                    |
| C7    | Dylai pob aelod o'r staff ddarllen y polisïau a'r gweithdrefnau sy'n berthnasol i'w maes gwaith, a dylent lofnodi datganiad i'r perwyl hwn.                                                                                   |
| M42   | Dylid sicrhau bod y cleifion yn cael gwybod am eu hawliau, ar lafar ac yn ysgrifenedig.                                                                                                                                       |
| C33   | Dylid gwneud y wybodaeth sydd ar y byrddau gwyn yn anhysbys, er mwyn diogelu cyfrinachedd gwybodaeth am gleifion.                                                                                                             |
| M32   | Dylai'r tîm adolygu a thrafod digwyddiadau. Dylid rhoi adborth rheolaidd i'r staff, a chytuno ar unrhyw wersi i'w dysgu a/neu hyfforddiant. Dylid cynnal dadansoddiad o ddigwyddiadau hefyd er mwyn canfod unrhyw dueddiadau. |

Diben bodolaeth Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru yw hybu gwelliant mewn iechyd a gofal iechyd. Mae gennym ddyletswydd statudol i asesu perfformiad sefydliadau gofal iechyd ar gyfer y GIG, a chydgysylltu adolygiadau gofal iechyd gan eraill. Wrth wneud hyn, ein nod yw lleihau'r baich rheoliadol ar sefydliadau gofal iechyd a chydweddu asesiadau gofal iechyd a ddarperir gan y GIG ag asesiadau'r sector annibynnol (preifat a gwirfoddol).

Ceir atgynhyrchu'r ddogfen hon yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, ar yr amod nad yw ar gyfer adwerthiant masnachol. Dim ond yn ei gyfanrwydd y ceir atgynhyrchu'r adroddiad hwn. Ni cheir ei atgynhyrchu'n rhannol nac ar ffurf gryno ac ni cheir dyfynnu ohono heb ganiatâd ysgrifenedig Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru. Mae'r caniatâd hwn yn amodol ar atgynhyrchu'r deunydd yn gywir, ac ar yr amod nad yw'n cael ei ddefnyddio mewn modd niweidiol na chyd-destun camarweiniol. Dylid cydnabod mai © 2011 Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru yw'r deunydd, gan nodi teitl y ddogfen. Dylai ceisiadau ar gyfer atgynhyrchu fod yn ysgrifenedig a dylid eu hanfon at: Y Prif Weithredwr, Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, Tŷ Bevan, Parc Busnes Caerffili, Caerffili CF83 3ED.